Mae disgyblion Ysgol Gynradd Abererch yn cydweithio gyda cwmni trnau Arriva ar brosiect Diogelwch ar y Trenau. Mae'r plant yn dysgu sut i fod yn ddiogel pan yn teithio ar drenau ac o gwmpas gorsafoedd. Fel rhan o'r prosiect bydd y plant yn creu murluniau ar gyfer gorsaf Penychain a phlannu tybiau blodau, mae plant yr ysgol wedi cael trip ar y trên i Bermo gan y cwmni a'r trefnydd, sef Philip Caldwell. Yn y llun gwelir y plant a Mr Caldwell wedi cyrraedd yn ddiogel yn y Bermo